# Rhaglen Natura 2000 LIFE yng Nghymru

# Strategaeth Eiriolaeth a Chyfathrebu

# Rhagfyr 2012

## Cynnwys


Cyflwyniad.......... **Error! Bookmark not defined.**

Nodau'r Strategaeth.......... 2

Gwybodaeth a phrif negeseuon i'w cyfathrebu.......... 3

Cynulleidfa darged ar gyfer gweithgareddau cyfathrebu/Dadansoddiad Rhanddeiliaid.......... 3

Sianeli cyfathrebu.......... 6

Polisïau a Safonau.......... 7

Partneriaethau.......... 8

Mesurau ar gyfer Gwerthuso ac Adolygu'r Strategaeth.......... **Error! Bookmark not defined.**

Crynodeb o weithgareddau i'w cyflawni.......... 10


Mae'r cynnwys fel y nodwyd ym mhecyn ar-lein Rhaglen LIFE, Taflen Ffeithiau Cyfathrebu ar Strategaethau Cyfathrebu.


*LIFE N2K Wales: LIFE 11 NAT/UK/385*

*Cefnogwyd yn ariannol gan LIFE, offeryn ariannol y Gymuned Ewropeaidd.*

## *Cyflwyniad*

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol yn allweddol i lwyddiant Rhaglen Natura 2000 LIFE. Mae ymgysylltiad llawn a dilys yn galluogi rhanddeiliaid i ddod yn rhan o waith y prosiect, mynegi eu barn, rhoi sylwadau ac ymgynghori ar allbwn y prosiect, helpu i lywio a dylanwadu ar y canlyniadau a gweithio gyda'i gilydd i lunio atebion effeithiol. Mae eu cymeradwyaeth yn y pen draw a'u teimlad o berchnogaeth ar y Cynlluniau Gweithredu (A.6) a Rhaglen Natura 2000 (A.7) yn hanfodol er mwyn sicrhau allbwn llwyddiannus. Hefyd, mae rhaglen gref o weithgareddau cyfranogi yn galluogi'r prosiect i ddylanwadu ar farn ac ymddygiad y rhanddeiliaid drwy wybodaeth, trafodaeth, arweinyddiaeth gan gymheiriaid ac ati.

Bydd y Strategaeth Eiriolaeth a Chyfathrebu'n darparu fframwaith trosfwaol a sail resymegol i arwain holl gamau gweithredu'r prosiect sy'n ymwneud ag ymgysylltu a chyfathrebu dwy ffordd â rhanddeiliaid. Bydd hefyd yn rhoi manylion am bob cam gweithredu sy'n ofynnol a sut y cânt eu cyflawni.

Rhan allweddol o'r strategaeth fydd y Dadansoddiad Rhanddeiliaid (DCT-12-303082) i nodi pob rhanddeiliad perthnasol yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, ac unigolion i'w cynrychioli, yn ogystal â chategoreiddio pob rhanddeiliad yn ôl math o sefydliad a lefel/math o gyfraniad sydd ei angen.

### Y Berthynas rhwng Strategaeth Ymwybyddiaeth Gyhoeddus a Lledaenu Gwybodaeth a Strategaeth Eiriolaeth a Chyfathrebu

Mae'r Strategaeth Ymwybyddiaeth Gyhoeddus a Lledaenu Gwybodaeth yn ymdrin â chyfathrebu un ffordd h.y. negeseuon sy'n cael eu rhannu gan y prosiect ar ffurf a fydd yn hysbysu cynulleidfaoedd ynglŷn â gwaith a chanlyniadau'r prosiect ond nad ydynt yn gynhenid ryngweithiol, e.e. cylchlythyrau, datganiadau i'r wasg, adroddiad lleygwr ac ati. Mae'r Strategaeth Eiriolaeth a Chyfathrebu yn ymdrin â chyfathrebu ac ymgysylltu dwy ffordd fel y disgrifiwyd uchod. Bydd y gynulleidfa randdeiliaid yn debyg iawn ar gyfer y ddwy strategaeth; ond bydd y Strategaeth Ymwybyddiaeth Gyhoeddus a Lledaenu Gwybodaeth yn ymestyn tu hwnt i'r rhanddeiliaid i gyrraedd cynulleidfa gryn dipyn yn ehangach.

## *Nodau'r Strategaeth*

1. Galluogi rhanddeiliaid i ddod yn rhan o waith y prosiect, mynegi eu barn, rhoi sylwadau ac ymgynghori ar allbwn y prosiect, helpu i lywio a dylanwadu ar y canlyniadau a gweithio gyda'i gilydd i lunio atebion effeithiol a dulliau cyffredin o weithredu.

2. Lle bo angen, galluogi'r prosiect i ddylanwadu ar farn ac ymddygiad y rhanddeiliaid mewn perthynas â rheoli safleoedd drwy wybodaeth, trafodaeth, arweinyddiaeth gan gymheiriaid ac ati.

3. Cynhyrchu rhaglen sy'n dderbyniol ac yn derbyn cefnogaeth gan fwyafrif y rhanddeiliaid, er mwyn sicrhau ymrwymiad parhaus i'r rhaglen ac i wneud yn siŵr ei bod yn cael ei rhoi ar waith yn fuan.

4. Galluogi ac annog rhanddeiliaid i gyfrannu gwybodaeth ac arbenigedd i helpu i adeiladu'r sylfaen dystiolaeth fwyaf cynhwysfawr a chywir ar gyfer y rhaglen.
5. Lle bo angen, dylanwadu ar y bobl sy'n gwneud penderfyniadau, llunwyr polisïau a deiliaid grantiau i wneud newidiadau i bolisïau, rheoliadau, deddfwriaeth a blaenoriaethau grant, i gefnogi'r gwaith o adfer a rheoli safleoedd Natura 2000.

## *Gwybodaeth a phrif negeseuon i'w cyfathrebu*

Negeseuon

- Gall eich sefydliad chwarae rhan allweddol yn y gwaith o lunio a sefydlu rhaglen waith â blaenoriaethau ar gyfer safleoedd Natura 2000 ledled Cymru yn y cyfnod 2014-20.
- Rydym eisiau i'ch sefydliad gefnogi a theimlo perchnogaeth ar y Rhaglen a'r Cynlluniau Gweithredu.
- Rydym eisiau i'ch sefydliad fod yn barod ac yn awyddus i weithredu'r argymhellion yn y Cynlluniau Gweithredu a'r Rhaglen cyn gynted ag y bo modd.
- Gallwch gyfrannu gwybodaeth, tystiolaeth, barn a safbwyntiau er mwyn helpu i lunio'r Cynlluniau Gweithredu a'r Rhaglen.

Gwybodaeth

- Gwybodaeth yn ymwneud â pha gyfraniad yn union sydd ei angen gan y rhanddeiliad ar unrhyw adeg arbennig yn y broses (beth, pryd, pam, ble, sut).
- Gwybodaeth dechnegol gyfredol lawn sydd ar gael sy'n ymwneud ag unrhyw un o'r Camau Gweithredu.
- Gwybodaeth gychwynnol neu ddiweddaraf am brosiect Natura 2000 LIFE a'i nodau, amcanion, gweithgareddau, manteision, llwyddiannau, digwyddiadau i ddod, cynnydd ac ati, ac offeryn ariannol LIFE (fel y darparwyd gan weithgareddau a ddisgrifir yn y Strategaeth Ymwybyddiaeth Gyhoeddus a Lledaenu Gwybodaeth).

## *Cynulleidfa darged ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu/Dadansoddiad Rhanddeiliaid*

Oherwydd prinder amser, ni allodd CNC ymgysylltu'n llawn â'r rhanddeiliaid allweddol yn ystod cam paratoi'r cynnig. Fodd bynnag, trafododd CNC y prosiect yn llawn gyda Llywodraeth Cymru ar lefel uwch i sicrhau cefnogaeth y llywodraeth. Ar ôl paratoi a chyflwyno'r cais, aethom ati i rannu'r cynnig bras a'r amcanion ag aelodau o Grŵp Canlyniad 21 Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (CNC, Llywodraeth Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru, RSPB, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol) a dangosodd hyn fod y rhanddeiliaid allweddol yn cefnogi'r cynnig.

Cynhaliwyd dadansoddiad llawn o'r rhanddeiliaid ac mae'r rhestr o randdeiliaid a ddeilliodd ohono i'w gweld ar ffurf dogfen DCT-12-303082. Mae'n seiliedig ar ddadansoddiad a

gynhaliwyd gan y Rhaglen Safleoedd Arbennig yn 2008, ond mae wedi'i diweddaru a'i hehangu i'r diben hwn.

**<u>Categoreiddio sefydliadau rhanddeiliaid</u>**

Mae'r rhanddeiliaid wedi'u categoreiddio mewn amryw o ffyrdd fel y dangosir yn y tablau isod.

**Lefel ymwneud â Rhaglen Natura 2000 LIFE**

| | Disgrifiad | Math o weithgaredd cyfathrebu |
|---|---|---|
| 1 | PARTNER CRAIDD<br>Lefel uchel o ymwneud ym mhob cam o'r rhaglen; mae eu gwybodaeth, eu barn a'u cymeradwyaeth yn hanfodol er mwyn llwyddo. Byddant yn helpu i bennu blaenoriaethau a chyfeiriad. Maent yn gweithio'n agos â safleoedd Natura 2000 ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o faterion cadwraeth strategol yng Nghymru. Parod ac abl i fuddsoddi amser er mwyn ymgysylltu â'r prosiect. | • Pob gweithdy a digwyddiad prosiect perthnasol<br>• Cyfarfodydd unigol<br>• Grŵp trafod ar-lein<br>• Gweithgareddau ymwybyddiaeth, e.e. cylchlythyr |
| 2 | YMWNEUD SYLWEDDOL<br>Mae ganddynt ddiddordeb cryf mewn safleoedd Natura 2000. Mae eu cefnogaeth gyffredinol i'r rhaglen yn hanfodol ond mae'n annhebygol y byddant yn ymwneud â'r holl fanylder technegol a phob trafodaeth; yn hytrach, maent yn canolbwyntio ar feysydd o ddiddordeb penodol. | • Rhai gweithdai, lle trafodir materion perthnasol.<br>• Digwyddiadau cychwynnol a therfynol<br>• Holiaduron ac ati<br>• Gweithgareddau ymwybyddiaeth |
| 3 | RHYWFAINT O YMWNEUD<br>Efallai mai dim ond â rhan benodol o'r prosiect y byddant yn ymwneud, e.e. wrth fynd i'r afael â mater neu safle penodol. Mae ganddynt ddiddordeb cyffredinol mewn safleoedd Natura 2000 ond maent yn llai canolog i'r broses. Annhebygol o allu, neu o fod yn barod i fuddsoddi llawer o amser yn y prosiect. | • Rhai gweithdai, lle trafodir materion perthnasol.<br>• Cyfarfodydd unigol/dulliau eraill o gyfathrebu<br>• Holiaduron ac ati<br>• Gweithgareddau ymwybyddiaeth |
| 4 | ANGEN I HYSBYSU<br>Angen iddynt fod yn ymwybodol o'r prosiect a'i gynnydd ond nid ydynt yn debygol o gyfrannu mewnbwn sylweddol. | • Gweithgareddau ymwybyddiaeth |

**Sector**

| Sector |
|---|
| Corff anllywodraethol cadwraethol |
| Asiantaeth yr Amgylchedd – y DU |

| |
|---|
| Asiantaeth yr Amgylchedd – Cymru |
| Buddiant ffermio/tirfeddiannol |
| Buddiant pysgota |
| Llywodraeth – Ewrop |
| Llywodraeth – y DU |
| Llywodraeth – Cymru |
| Rhoddwr grantiau |
| Diwydiant a masnach |
| Awdurdod lleol |
| Arall |
| Corff cyhoeddus arall |
| Gwleidyddion |
| Corff cyhoeddus tirweddau gwarchodedig |
| Grŵp defnyddwyr |
| Cyfleustod |

**Math o randdeiliad**

Mae'r categori hwn yn ei gwneud hi'n bosibl nodi rhanddeiliaid mewnol ac allanol. Mae hefyd yn cydnabod rhwydweithiau, grwpiau, fforymau a phartneriaethau fel rhanddeiliaid a'i gwneud hi'n bosibl eu nodi er mwyn sicrhau bod y prosiect yn gwneud defnydd llawn ohonynt, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt ac yn eu cynnwys mewn trafodaethau perthnasol yn ôl yr angen.

| **Math** |
|---|
| Grŵp/Ardal CNC |
| Rhwydwaith, Grŵp, Fforwm neu Bartneriaeth |
| Unigolyn |
| Sefydliad |
| Sefydliad – adran |
| Sefydliad cynrychiadol |

**Pwrpas cyfathrebu**

| **Pwrpas cyfathrebu** | **Nodiadau** |
|---|---|
| Cael gwybodaeth a chyngor | Gallu cynnwys rhai sy'n ymwneud â'r prosiect (e.e. partner craidd), yn ogystal â rhai nad ydynt yn ymwneud mewn ffyrdd eraill (e.e. academyddion). |
| Ymgynghori/sicrhau cymeradwyaeth | |
| Cefnogaeth gyffredinol | |
| Rhwydweithio | E.e. prosiectau tebyg mewn rhannau eraill o'r DU neu Ewrop. Rhannu gwybodaeth a phrofiad er lles pawb. |
| Dylanwadu | E.e. gwleidyddion, llunwyr polisi, rhoddwyr grantiau. Ddim yn ymwneud â'r prosiect fel arall. |
| Cynnal ymwybyddiaeth | |

**Arall**

Manylion eraill sydd wedi'u cynnwys yn y Dadansoddiad Rhanddeiliaid:
- A yw'r rhanddeiliad hefyd yn berchennog neu'n feddiannydd Natura 2000.
- A fydd y rhanddeiliad hefyd yn cyflawni camau gweithredu
- Nifer y camau gweithredu a gofnodwyd yn y Gronfa Ddata ar Gamau Gweithredu ar gyfer y rhanddeiliad
- Graddau ymwneud â'r prosiect hyd yn hyn
- Enwau a manylion cyswllt

Ni fydd yr holl ddata wedi'i gwblhau ar gyfer pob rhanddeiliad i gychwyn ond caiff ei ychwanegu a'i ddiwygio wrth i fwy o wybodaeth ddod i law am y rhanddeiliaid, ac wrth i'r berthynas rhwng y rhanddeiliad a'r prosiect ddatblygu.

**Cynrychiolwyr**

Sefydliadau, adrannau, rhwydweithiau ac ati yn hytrach nag unigolion yw rhanddeiliaid gan mwyaf. Fodd bynnag, caiff pob corff ei gynrychioli gan un neu ddau unigolyn. Mae'r cynrychiolwyr hyn yn hollbwysig gan mai nhw yw'r prif bwynt cyswllt. Bydd y prosiect yn dibynnu arnynt i ledaenu negeseuon o fewn eu corff ac i gael gafael ar wybodaeth a chyfleu barn y sefydliad.

Bydd y prosiect yn ceisio nodi un cyswllt arweiniol ar gyfer pob corff rhanddeiliaid, ond bydd hefyd yn anfon negeseuon mwy cyffredinol at gynrychiolwyr eilaidd/ymgyngoreion eraill os oes angen.

Bydd cyfathrebu ac ymgysylltu'n digwydd ar wahanol lefelau o fewn y sefydliadau rhanddeiliaid, e.e. bydd digwyddiadau cychwynnol cynnar yn targedu cynrychiolwyr dylanwadol/staff uwch er mwyn codi ymwybyddiaeth am y prosiect, annog staff i ymrwymo'u hamser a chytuno ar strategaeth gyda nhw ar gyfer cyfranogi. Fodd bynnag, gyda rheolwyr/swyddogion technegol, gweithredol neu bolisi y bydd unrhyw ymwneud sy'n dilyn hynny yn digwydd.

## *Sianeli cyfathrebu*

Y bwriad yw defnyddio'r sianeli canlynol ar gyfer cyfathrebu a lledaenu gwybodaeth:

- Seminar gychwynnol/cyfarfod cychwyn lefel uchel
- Gweithdai technegol
- Seminar derfynol
- Gweithdai a chyfarfodydd hyfforddiant TG
- Cyfarfodydd ad hoc gyda sefydliadau rhanddeiliaid unigol
- Aelodau'r tîm i fynychu cyfarfodydd grwpiau mewnol CNC, seminarau ac ati sy'n bodoli'n barod.
- Aelodau'r tîm i fynychu rhwydweithiau, fforymau allanol ac ati sy'n bodoli'n barod.
- Cyfathrebu drwy gyfarfodydd cyswllt partneriaid strategol uwch
- Gweithgor/ fforwm ar-lein
- Post ad hoc, galwadau ffôn neu ohebiaeth/sgyrsiau eraill

- Holiaduron, galwadau am wybodaeth neu safbwyntiau
- Gweithgareddau'r Strategaeth Ymwybyddiaeth Gyhoeddus a Lledaenu Gwybodaeth

Mewn gweithdai a seminarau, defnyddir y technegau a'r dulliau canlynol:

- Cyflwyniadau
- Trafodaethau mewn grwpiau bach
- Trafodaethau/dadleuon grŵp llawn
- Gweithgareddau i hwyluso mewnbwn gan bawb
- Sgyrsiau ag unigolion
- Gweithgareddau'r Strategaeth Ymwybyddiaeth Gyhoeddus a Lledaenu Gwybodaeth

Amser a sgiliau cyfathrebu'r Tîm Prosiect fydd y prif adnodd, gan nad oes cyllideb ar gyfer prynu gwasanaethau hwyluswyr arbenigol. Bydd y Tîm Prosiect yn gweithio gyda'r bobl yn CNC sydd ag arbenigedd ym maes hwyluso a gweithio gyda rhanddeiliaid i gael cyngor a chymorth. Nodwyd sgiliau hwyluso fel angen hyfforddi ar gyfer y tîm.

## *Polisïau a Safonau*

Y Gymraeg

Bydd pob testun mewn cyflwyniadau i'w weld yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cynhyrchir pob e-gylchlythyr, holiadur ac ati'n ddwyieithog oni bai eu bod ar gyfer cynulleidfa fach o fewn CNC yn unig.

Yn gyffredinol, cynhelir gweithdai a seminarau'r prosiect yn Saesneg; nid oes cyllideb ar gael ar gyfer cyfieithu ar y pryd. Fodd bynnag, gwneir pob ymdrech i gynnwys cyflwyniad/croeso yn Gymraeg. Hefyd, pan fydd cyfranogwyr yn gweithio mewn sesiynau neu grwpiau, gall y cyfranogwyr ddewis gweithio mewn grwpiau Cymraeg, a gallant gyflwyno cyfraniadau ysgrifenedig ar gyfer y gweithdai drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

Bydd negeseuon e-bost a llythyrau a ddaw i law yn derbyn ateb yn iaith y llythyr gwreiddiol. Bydd y tîm yn ceisio darparu siaradwr Cymraeg i ymateb i rai sy'n dymuno cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg dros y ffôn neu wyneb yn wyneb.

Cydnabyddiaeth

Rhaid cydnabod cefnogaeth LIFE ym mhob seminar, gweithdy ac ati.

Bydd unrhyw ddeunydd ysgrifenedig a gynhyrchir ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cydnabod cefnogaeth LIFE a lle bo'n briodol, yn dangos y logos canlynol:

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales | Llywodraeth Cymru Welsh Government | NATURA 2000 | Life

Gweler y Strategaeth Ymwybyddiaeth Gyhoeddus a Lledaenu Gwybodaeth am ragor o fanylion.

Ar gyfer deunydd clyweledol, bydd y clodrestri ar y dechrau neu'r diwedd yn cynnwys cyfeiriad amlwg a darllenadwy at gymorth LIFE (e.e. "Gyda chyfraniad LIFE, offeryn ariannol y Gymuned Ewropeaidd").

Hefyd, rhaid disgrifio pwysigrwydd y prosiect o ran sefydlu rhwydwaith Natura 2000.

Gofynion eraill LIFE

- Argymhellir y dylai fod allbwn eglur o weithdai, seminarau a chynadleddau (adroddiadau cryno, erthyglau cyfnodolion ac ati) ac y dylent gynnig manteision sylweddol ar gyfer rhwydweithio.
- Mae gofyn i fuddiolwyr a phartneriaid roi gwybod i'r Comisiwn am bob seminar a chynhadledd gyhoeddus a drefnir yn fframwaith y prosiect o leiaf dair wythnos cyn y digwyddiad, a'i wahodd iddynt heb godi tâl cofrestru na ffioedd eraill.

Mynediad at Wybodaeth/Gwybodaeth Sensitif

Bydd y prosiect yn ceisio mabwysiadu dull tryloyw ac agored o weithredu, a lle bynnag y bo modd, yn sicrhau fod deunydd prosiect ar gael am ddim i randdeiliaid a'r cyhoedd. Fodd bynnag, byddwn yn cyfyngu ar fynediad at unrhyw wybodaeth sensitif neu bersonol. Bydd y prosiect yn cydymffurfio â phob deddfwriaeth 'mynediad at wybodaeth' berthnasol, a pholisi a gweithdrefn CNC.

Mae manylion llawn i'w gweld yng Nghynllun Mynediad at Wybodaeth y prosiect (sydd yn y broses o gael ei baratoi).

## *Partneriaethau*

Bydd tîm prosiect Natura 2000 LIFE yn gweithio'n agos ag arbenigwyr cyfathrebu CNC yn ôl yr angen.

Bydd cyfathrebu ar agenda Grŵp Llywio'r Prosiect (bwrdd y prosiect) a Grŵp Rheoli'r Prosiect yn rheolaidd, er mwyn galluogi aelodau'r grwpiau i gyfrannu at y strategaeth a llywio cynnydd ac allbwn.

## *Mesurau ar gyfer Gwerthuso ac Adolygu'r Strategaeth*

Cyflwynir drafft o'r Strategaeth Eiriolaeth a Chyfathrebu i gydweithwyr CNC sydd ag arbenigedd ym maes cyfathrebu, ymgysylltu â rhanddeiliaid a gweithio mewn partneriaeth. Fe'i cyflwynir hefyd i sylw Grŵp Rheoli'r Prosiect am adborth pellach. I orffen, caiff ei chyflwyno i'r Grŵp Llywio (bwrdd y prosiect) i'w chymeradwyo'n ffurfiol.

Adroddir ar gynnydd y gwaith o'i gweithredu mewn cyfarfodydd dilynol o'r Pwyllgor Rheoli a'r Pwyllgor Llywio, a bydd aelodau'r grwpiau'n gwerthuso ansawdd yr allbwn a'r cynnydd yn ôl amserlenni penodedig. Caiff unrhyw broblemau neu faterion sy'n codi eu trafod yn y cyfarfodydd, a phennir dulliau o'u datrys.

Asesir yr holl ddeunydd ysgrifenedig a gynhyrchir i sicrhau bod y Negeseuon Allweddol wedi'u cynnwys a'i fod yn cydymffurfio â safonau eraill y Strategaeth. Cesglir adborth gan y rhanddeiliaid ar ôl gweithdai ac ati i werthuso llwyddiant y digwyddiad a meysydd i'w gwella.

Mae monitro ac adolygu aml yn arbennig o bwysig yn ystod camau'r newid i Cyfoeth Naturiol Cymru a'r newid posibl yn y cyfrifoldeb am swyddogaethau sefydliadol perthnasol.

Bwriedir i'r ddogfen Strategaeth hon, yn enwedig y 'Gweithgareddau i'w cyflawni' fod yn ddogfen waith i'w hehangu, ei hadolygu a'i diweddaru gan y Rheolwr Prosiect drwy gydol y prosiect wrth i weithgareddau ddatblygu ac i wersi gael eu dysgu.

## *Crynodeb o weithgareddau i'w cyflawni*

Amlinellir cynlluniau manwl ar gyfer y gweithgareddau hyn yn Atodiad A: Cynlluniau Gweithredu.

| | **Enw** | **Cam gweithredu** | **Nifer digwyddiadau** | **Costau teithio a threuliau** | **Costau lleoliad/lluniaeth** | **Hyd** | **Nifer y cyfranogwyr** | **Amserlen** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | Strategaeth Eiriolaeth a Chyfathrebu a Dadansoddiad Rhanddeiliaid | A.10 | ddim yn berthnasol | | £0 | ddim yn berthnasol | ddim yn berthnasol | 30 Tach 12 |
| B | Digwyddiad cychwynnol | A.10 | 2 | | £954 | Diwrnod cyfan | 30 | 31 Ion 13 |
| C | Gweithdai technegol - problemau a risgiau | A.2 | 4 | 9 taith £1,122 | £1,909 | Diwrnod cyfan | 30 | 31 Ion 13 |
| D | Gweithdai technegol i arfarnu systemau rheoli cyfredol | A.3 | 4 | 17 taith £1,142 | £1,909 | Heb ei nodi | 30 | 1 Rhag 12-31 Maw 13 |
| E | Gweithdai technegol i nodi systemau rheoli newydd | A.4 | 4 | 21 taith £1,487 | £1,909 | Heb ei nodi | 30 | 1 Ebr 13 - 30 Medi 13 |
| F | Cyfarfodydd Cynlluniau Gweithredu | A.5 | 8 | 36 taith £2,699 | £812 | Heb ei nodi | 10 | 1 Chwe 13 – 30 Medi 14 |
| G | Arddangos adnodd TG i bartneriaid mewnol ac allanol | A.11 | 2 digwyddiad 6 ymweliad | 6 taith £944 | £203 | Heb ei nodi | 10 | Erbyn 31 Rhag 13 |
| H | Mynychu cyfarfodydd rhwydweithiau, grwpiau, fforymau a phartneriaethau presennol, a chyfarfodydd â rhanddeiliaid unigol | A.10 | 14 cyfarfod | 14 taith | £0 | Heb ei nodi | Heb ei nodi | Heb nodi dyddiad. |
| I | Cyfarfodydd rhaglen | A.7 | 2 | 7 taith £472 | £203 | Heb ei nodi | 10 | 1 Gor – 31 Rhag 14 |
| J | Seminar cloriannu i adolygu gwaith | A.10 | 1 | £98 | £477 | Diwrnod cyfan | 30 | 31 Ebr 14 |
| K | Cyfarfod cloi'r prosiect | A.10 | 1 | £98 | £477 | Diwrnod cyfan | 30 | 30 Hyd 14 |
| L | Gweithgareddau | F.2 | 3 | £2,124 | £0 | Amrywiol | Ddim | Parhaus |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | rhwydweithio | | ymweli ad | | | | yn berth nasol | |
| M | Fforwm Drafod Ar-lein | (A.10) | ddim yn berthna sol | | £0 | ddim yn berthnasol | | 30 Ion 13 |